



Heddwch yn ein Byd

Cwestiwn Ymholi: Sut gallwn ni greu heddwch yn ein hysgol, ein cymuned a'n byd?

Mae'r prosiect Dyniaethau trawsddisgyblaethol hwn yn archwilio heddwch fel cysyniad personol, cymdeithasol, amgylcheddol, moesegol a byd-eang. Trwy astudio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), Hanes, Daearyddiaeth a Dinasyddiaeth, mae dysgwyr yn ymchwilio i sut y caiff heddwch ei greu, ei gynnal a'i herio. Daw'r gwaith ymholi i ben gydag arddangosfa gyhoeddus lle mae dysgwyr yn rhannu eu canfyddiadau ac yn cynnig camau gweithredu i feithrin heddwch yn eu cymunedau.

Sesiwn	Cwestiwn Ymholiad	Bwriadau Dysgu	Gweithgareddau	Cysylltiadau Dyniaethau
Beth yw heddwch?	Beth yw ystyr heddwch?	- Archwilio dealltwriaethau amrywiol o heddwch - Creu cwestiynau ymholi - Ystyried profiadau personol o heddwch	- Gweithgaredd Ysgogiadol: dangos delweddau o: natur, dathliadau cymunedol, datrys gwrthdaro, a diwylliannau amrywiol yn cydweithio. Gofyn: Beth sy'n gyffredin rhwng y delweddau hyn? A yw heddwch bob amser yn dawl? A all heddwch fodoli yn ystod anghytundeb? - Tasg Grŵp: creu map meddwl: Mae heddwch yn... - Trafodaeth P4C: A yw heddwch yr un peth i bawb? A all un person greu heddwch? - Wal Heddwch y Dosbarth yn arddangos syniadau'r dysgwyr.	Datganiadau 1,2 a 5.
Heddwch drwy Hanes	Pwy sydd wedi helpu i greu heddwch?	- Ymchwilio cymeriadau hanesyddol - Archwilio symbyliadau a gweithredoedd	- Her ymchwil: Creu proffil o Arwr Heddwch sy'n cynnwys gwybodaeth fywgraffiadol; cyflawniadau pwysig; heriau a wynebwyd; ac effaith barhaus (e.e. Mahatma Gandhi, Nelson Mandela, Malala Yousafzai, Martin Luther King). - Gweithgaredd llinell amser: creu llinell amser ar gyfer yr ystafell ddosbarth sy'n dangos digwyddiadau arwyddocaol yn ymwneud â heddwch.	Datganiadau 1,2 a 4.

			• Myfyrdod: Pa rinweddau sy'n gyffredin i wneuthurwyr heddwch?	
Heddwch, credoau a Byd-olygon (Worldviews)	Beth mae credoau yn ein dysgu am heddwch?	• Archwilio safbwyntiau byd crefyddol ac anghrefyddol • Cymharu credoau a gwerthoedd	• Cynnwys dysgu: Cristnogaeth (maddeuant a chreu heddwch); Islam (heddwch (Salaam), tosturi a chymuned); Bwdhaeth (ymwybyddiaeth ofalgar a heddwch mewnol); Hindŵaeth (Ahimsa ac absenoldeb trais); Iddewiaeth (Shalom a lles); Dyneiddiaeth (empathi, cydweithredu a hawliau dynol) • Heriau yn ymwneud â tebygrwydd a gwahaniaethau – dysgwyr yn cymharu dysgeidiaethau am heddwch. • Dadansoddi dyfyniadau – dadansoddi dyfyniadau am heddwch o draddodiadau gwahanol • Ymateb creadigol – creu gwaith celf sy'n cynrychioli byw mewn heddwch.	Datganiadau 2,4 a 5
Cymunedau heddychlon	Beth sy'n gwneud cymuned yn heddychlon?	• Archwilio lle a pherthyn • Ymchwilio i ffactorau sy'n hyrwyddo lles	• Ymchwiliad Ardal Leol. Nodwch: mannau gwyrdd, cyfleusterau cymunedol, mannau diogel, ardaloedd sydd angen eu gwella. • Tasg Mapio – creu map wedi'i labelu: “Mannau sy'n Helpu Pobl i Deimlo'n Ddiogel ac yn Gysylltiedig”. • Her ddylunio: dylunio cymuned heddychlon gan gynnwys parciau, trafnidiaeth, mannau cymunedol, tai, Cynefinoedd bywyd gwyllt.	Datganiadau 3, 4 a 5
Heddwch, Tegwch a Chyfiawnder	Pam mae tegwch a chyfiawnder yn bwysig ar gyfer heddwch?	• Ystyried cyfyng-gynghorion moesegol • Datblygu empathy	• Dysgu yn seiliedig ar senarios – archwilio sefyllfaoedd sy'n ymwneud â bwllo, gwahardd, rhannu anghyfartal a newid amgylcheddol. • Cwestiynau trafod: Beth sy'n deg? A yw tegwch bob amser yn golygu cydraddoldeb? A all fod heddwch heb gyfiawnder? • Cylch adeiladwyr heddwch: chwarae rôl i ymarfer strategaethau datrys gwrthdaro.	Datganiad 5

Cymryd camau dros heddwch	Sut gallwn ni wneud gwahaniaeth?	- Datblygu dinasyddiaeth weithredol - Cymryd camau gwybodus	- Mae disgyblion yn dewis prosiect gweithredu dosbarth, fel ymgyrch cyfeillgarwch, llysgenhadon heddwch ar y buarth chwarae, wythnos caredigrwydd, gardd gymunedol, prosiect amgylcheddol neu bartneriaeth rhwng cenedlaethau. - Myfyrion: Sut mae gweithredoedd bach yn cyfrannu at heddwch?	Datganiad 5
Paratoi Arddangosfa	Sut gallwn rannu ein dysgu?	Paratoi ein harddangosfeydd	Mae grwpiau'n paratoi arddangosfeydd ar gyfer yr arddangosfa. Mae adrannau posibl yn cynnwys: Taith trwy hanes (llinellau amser hanesyddol a phroffiliau Arwyr Heddwch); Lleisiau Heddwch (cyfweiliadau, dyfyniadau a myfyrdodau); Credoau a Heddwch (arddangosfeydd CGM a gwaith cymharu); Cymunedau Heddwch (mapiau, modelau a gwaith dylunio); Cymryd Camau (tystiolaeth o weithgareddau dan arweiniad dysgwyr).	Datganiadau 1-5
Digwyddiad Uchafbwynt	Arddangosfa Heddwch yn ein Byd	Sut gallwn ni adeiladu heddwch yn ein hysgol, ein cymuned a'n byd?	- Gwahodd: teuluoedd, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned; dosbarthiadau eraill - Arddangosfeydd posib: Oriel Hanesyddol y Gwneuthurwyr Heddwch – ymchwil dysgwyr ar wneuthurwyr heddwch dylanwadol; Llawer o Leisiau, Un Gobaith – arddangosfa CGM yn archwilio credoau ac olygon ar y byd; Lleoedd Heddwch – mapiau cymunedol a dyluniadau trefi cynaliadwy; Myfyrdodau Dysgwyr – beth mae heddwch yn ei olygu i mi; Siarter Heddwch y Dosbarth – ymrwymadau ar y cyd a ddatblygwyd gan ddysgwyr; Parth Gweithredu – cyflwyniad o brosiectau heddwch y dosbarth	Datganiadau 1-5.

Cyfleoedd Asesu:

Maw dysgwyr yn gallu:	Tystiolaeth o ddysgu
-----------------------	----------------------

Disgrifio: • Ystyron gwahanol o heddwch • Sut mae deall heddwch mewn traddodiadau gwahanol Esbonio: • Sut y dylanwadodd credoau a gwerthoedd ar gamau gweithredu • Pam mae tegwch a chyfiawnder yn bwysig Ymchwilio i: • Enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o greu heddwch • Materion lleol a byd-eang Myfyrio: • Ar eu gwerthoedd a'u cyfrifoldebau eu Hunain • Ar safbwyntiau amrywiol Gweithredu: • I wella eu hysgol neu eu cymuned • Fel dinasyddion moesegol a gwybodus	Gall athrawon gasglu: • Cwestiynau ymholi • Nodiadau ymchwil • Llinellau amser • Mapiau • Gwaith celf • Recordiadau o leisiau disgyblion • Dyddiaduron myfyrio • Proffiliau Arwyr Heddwch • Cynlluniau gweithredu cymunedol • Cyflwyniadau ar gyfer arddangosfeydd
---	--

Cysylltiadau gyda'r Pedwar Diben	Cysyniadau CGM perthnasol i'r sesiynau uchod:
• Dysgwyr uchelgeisiol, galluog – trwy ymholiad, ymchwil a meddwl yn feirniadol • Cyfranwyr mentrus, creadigol – trwy ddylunio datrysiadau a gwaith arddangos. • Dinasyddion moesegol, gwybodus – trwy archwilio heddwch, cyfiawnder, hawliau, credoau a chynaliadwyedd • Unigolion iach, hyderus – trwy fyfyrrio, cydweithio, empathi a pherthnasoedd cadarnhaol.	Mae canllawiau CGM yn cefnogi dysgwyr i archwilio argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol, credoau, gwerthoedd a safbwyntiau moesegol trwy ymholiad ac adfyfyrio beirniadol. Mae'r sesiynau uchod yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o: • Credoau, gwerthoedd a moeseg • Ystyr, pwrpas a hunaniaeth • Perthyn a chymuned.